# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Y Graig

Dyddiad yr arolygiad: 08/06/2026

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Y Graig yn gymuned ddiogel a hapus lle mae perthnasoedd cadarnhaol a pharchus rhwng staff a disgyblion yn sefydlu ethos gofalgar. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn ymgysylltu’n frwdfrydig, yn enwedig ymysg y disgyblion ieuengaf lle mae tasgau ymarferol yn ysgogi dysgu effeithiol. Mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol a’r rhai o deuluoedd incwm isel, yn gwneud cynnydd cyson yn eu medrau.

Mae gan yr arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, gan ddyheu am sicrhau’r lles gorau posibl ar gyfer disgyblion. Mae’r llywodraethwyr yn ymrwymedig i ddatblygiad yr ysgol ac yn cefnogi arweinwyr yn briodol. Er hyn, nid yw prosesau hunanwerthuso yn ddigon strategol er mwyn cysoni’r addysgu effeithiol ar draws yr ysgol.

Mae staff yn darparu cwricwlwm sydd wedi’i wreiddio’n effeithiol yng nghyd-destun lleol yr ysgol sy’n meithrin ei pherthynas glòs â’r gymuned leol. Mae hyn yn cefnogi disgyblion i ddangos balchder gwirioneddol yn eu cynefin a’u hardal leol.

Yn yr arferion gorau, fel yn nosbarthiadau’r disgyblion ieuengaf, lle cyflwynir gweithgareddau cyfoethog iddynt, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llafar a llythrennedd Cymraeg. Wrth i ddisgyblion symud trwy’r ysgol, nid yw athrawon bob tro’n darparu gweithgareddau sy’n herio dysgu’r disgyblion, yn enwedig y rhai mwy abl, yn ddigon cyson. Mae athrawon yn tueddu i or-arwain y dysgu sy’n cyfyngu ar gynnydd cyson ym medrau sylfaenol disgyblion. Yn ogystal, nid yw lleiafrif y disgyblion yn datblygu eu medrau gwrando’n ddigon effeithiol, sydd, yn ei dro, yn amharu ar lif yr addysgu a’r dysgu. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau mathemateg dros amser ond prin yw’r cyfleoedd sy’n cael eu darparu i gefnogi’r disgyblion hŷn i gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn hyderus ac yn dangos dealltwriaeth briodol o destunau, ac mae'r disgyblion ieuengaf yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu eu medrau ysgrifennu ar gyfer ystod o ddibenion. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion hŷn yn datblygu eu huwch fedrau darllen yn ddigon effeithiol i gywain gwybodaeth yn annibynnol o ystod o ffynonellau. Yn ogystal, nid ydynt yn cael digon o gyfleoedd cyson i ddatblygu eu medrau ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm meysydd dysgu.

# Argymhellion a beth sy’n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud pedwar argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Gwella’r addysgu ar gyfer y disgyblion hŷn i sicrhau bod y gweithgareddau’n eu herio’n gyson a’u cefnogi i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol

A2 Cryfhau’r prosesau gwerthuso a gwella

A3 Sicrhau bod y disgyblion hŷn yn datblygu eu medrau darllen ac ysgrifennu yn adeiladol

A4 Darparu cyfleoedd pwrpasol i’r disgyblion hŷn gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o’r ysgol, dilynwch y ddolen hon i’r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae’r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu’n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/08/2026